Gair Bywyd - Mehefin 2020

Derbyn y person arall a allai fod yn wahanol iawn i ni yw sail cariad Cristnogol. Dyma'r man cychwyn, y cam cyntaf wrth adeiladu gwareiddiad cariad, y diwylliant o gymundeb mae Iesu'n ein galw ato heddiw.

'Mae pwy bynnag sy'n rhoi croeso i chi yn rhoi croeso i mi, a phwy bynnag sy'n rhoi croeso i mi yn rhoi croeso i Dduw, yr un sydd wedi f'anfon i.' (Mathew 10:40)

Mae'r bennod hon yn Efengyl Mathew'n cynnwys cofnod o Iesu'n dewis ei ddeuddeg apostol ac yn eu hanfon allan i bregethu'r Newyddion Da.

Fe'u penodwyd nhw un wrth un, oedd yn arwydd o'r berthynas bersonol roedden nhw wedi'i meithrin gyda'r Meistr, ar ôl ei ddilyn ers dechrau ei genhadaeth. Roedden nhw wedi dysgu ei arddull - roedd yn agos at y cleifion, y pechaduriaid, y rhai roedd pobl yn credu bod ysbrydion drwg wedi'u meddiannu ac at bobl ar ymylon cymdeithas yr oedd pawb arall yn eu hosgoi ac yn eu condemnio. Dim ond ar ôl yr arwyddion cadarn hyn o gariad at ei bobl y paratôdd Iesu ei hun i gyhoeddi bod Teyrnas Duw yn agos.

Felly cafodd yr apostolion eu hanfon yn enw Iesu fel 'llysgenhadon' iddo. Drwyddyn nhw, Iesu sy'n cael ei groesawu.

Yn aml mae cymeriadau mawr y Beibl yn derbyn ymweliad gan Dduw ei hun am eu bod wedi agor eu calonnau i ymwelydd annisgwyl.

Hyd yn oed heddiw, yn enwedig mewn diwylliannau sy'n cynnal ymdeimlad cryf o gymuned, caiff yr ymwelydd ei ystyried yn sanctaidd ac mae'n cael y sedd orau, hyd yn oed os nad yw'r sawl sy'n croesawu yn ei adnabod.

Mae pwy bynnag sy'n rhoi croeso i chi yn rhoi croeso i mi, a phwy bynnag sy'n rhoi croeso i mi yn rhoi croeso i Dduw, yr un sydd wedi f'anfon i.

Rhoddodd Iesu gyfarwyddiadau i'r deuddeg: roedd rhaid iddyn nhw fynd yn droednoeth heb fawr o ddim gyda nhw: pecyn ysgafn, un diwnig… Roedd rhaid iddyn nhw eu hystyried eu hunain yn westeion, yn barod yn wylaidd i dderbyn lletygarwch pobl eraill. Roedd angen iddyn nhw gynnig gofal a chefnogaeth yn rhydd i'r tlodion a gadael rhodd heddwch gyda phawb roedden nhw'n dod ar eu traws. Fel Iesu, bydden nhw'n amyneddgar os byddai pobl yn eu camddeall neu'n eu herlid, gan fod â sicrwydd y byddai cariad y Tad yn eu helpu.

Fel hyn, fyddai'r bobl oedd yn ddigon ffodus i gwrdd â nhw'n cael profiad gwirioneddol o dynerwch Duw.

Mae pwy bynnag sy'n rhoi croeso i chi yn rhoi croeso i mi, a phwy bynnag sy'n rhoi croeso i mi yn rhoi croeso i Dduw, yr un sydd wedi f'anfon i.

Fel y disgyblion, mae gan bob Cristion genhadaeth; dylen nhw dystio i gariad Duw y maen nhw wedi dod ar ei draws. Dylen nhw wneud hyn yn gyntaf drwy eu gweithredoedd ac yna drwy eu geiriau gan gynnal agwedd ddiymhongar fel bod

cariad Duw'n dod yn wirionedd llawen i lawer, yn wir i bawb. Ac am eu bod wedi eu derbyn gan Dduw, er gwaethaf eu gwendid dynol, y dystiolaeth gyntaf y gallan nhw ei rhoi yw croesawu eu cymdogion yn gynnes.

Mewn cymdeithas lle mae'r awydd am lwyddiant ac annibyniaeth hunanol yn aml yn flaenllaw, caiff Cristnogion eu galw i ddangos prydferthwch brawdgarwch sy'n cydnabod anghenion pawb ac sy'n rhoi cyd-gariad ar waith.

Mae pwy bynnag sy'n rhoi croeso i chi yn rhoi croeso i mi, a phwy bynnag sy'n rhoi croeso i mi yn rhoi croeso i Dduw, yr un sydd wedi f'anfon i.

Dyma beth yr ysgrifennodd Chiara Lubich am groeso, yn yr ystyr efengylaidd, *"Roedd Iesu'n ymgorffori cariad croesawgar llwyr y Tad Nefolaidd at bob un ohonom ni a'r cariad felly y dylem ni ei deimlo at ein gilydd… Gallwn ddechrau byw'r Gair Bywyd hwn yn ein teuluoedd, cymdeithasau, cymunedau a mannau gwaith. Gallwn ddileu unrhyw ymdeimlad o feirniadaeth, gwahaniaethu, rhagfarn, dicter neu anoddefgarwch at ein cymdogion a allai fod yn llechu ynom ni. Yn aml ac yn rhwydd rydym ni'n meithrin agweddau o'r fath a all danseilio perthnasoedd; maen nhw fel haen o rwd sy'n rhwystro cyd-gariad… Derbyn y person arall a allai fod yn wahanol iawn i ni yw sail cariad Cristnogol. Dyma'r man cychwyn, y cam cyntaf wrth adeiladu gwareiddiad cariad, y diwylliant o gymundeb mae Iesu'n ein galw ato heddiw."* [i]

Letizia Magri

[i] Cf Chiara Lubich, Gair Bywyd Rhagfyr 1992.